UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Cynllun Addysg Gymraeg 2010-15
Cyngor Sir Ceredigion

Mai 2010

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymgynghoriad ar Gynllun Addysg Gymraeg 2010-15 Cyngor Sir Ceredigion

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghylch Cynllun Addysg Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei bencadlys yn Aberystwyth, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Croesawa UCAC y Cynllun Iaith Gymraeg (drafft ymgynghorol), ynghyd â'i fwriad i ddatblygu ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y sir. Teimla UCAC fod y Prif Nodau ac Amcanion y Cynllun yn gymeradwy, ac yn galonogol. Fel Undeb sy'n cynrychioli athrawon, rydym yn arbennig o falch i weld pwyslais yr Awdurdod ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus – mae hyfforddiant o'r fath yn anhepgor ar gyfer creu a chynnal gweithlu effeithiol, ac yn arbennig felly o ran sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.

Teimlwn fod ambell i agwedd o'r Cynllun y gellid ei chryfhau, ac ymhelaethwn ar y rheiny isod.

Pwyntiau Cyffredinol

- Mae'n gwbl naturiol bod pwyslais yn y Cynllun ar addysgu'r Gymraeg fel pwnc; serch hynny, awgrymwn fod angen sylw manylach i'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu mewn perthynas â phynciau penodol, a'r dilyniant y gellid ei ddisgwyl (ac y dylid ei annog) o ran dilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae angen i'r Cynllun Addysg Gymraeg fod yn fwy uchelgeisiol o safbwynt yr Ysgolion Penodedig Dwyieithog. Er enghraifft, mae lle i wella (ac i osod targedau a systemau monitro cyfatebol yn eu lle) yn y meysydd canlynol:
    - gwelliant o ran dilyniant ieithyddol mewn pynciau craidd rhwng CA2 a CA3, ac wedyn rhwng CA3 a CA4, yn arbennig Mathemateg a Gwyddoniaeth; mae angen negeseuon clir a chyson i rieni a disgyblion oddi wrth yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion os am wella'r dilyniant yn y pynciau penodol hyn – negeseuon sy'n dechrau yn y cyfnodau cynradd ac yn parhau drwy'r uwchradd
    - sicrhau bod cymalau priodol mewn cytundebau gyda darparwyr allanol parthed gwasanaethau addysgol sy'n sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynnig yn y Gymraeg, a hynny'n Gymraeg o safon uchel sy'n gyfatebol â safonau'r ysgol ei hun
    - awgrymwn fod angen ymhelaethu ar gamau posib i sicrhau ethos Cymreig a Chymraeg Ysgolion Penodedig Dwyieithog wrth i ddisgyblion symud o sefydliad i sefydliad yn sgil y Cwricwlwm Lleol 14-19, h.y. wrth groesawu disgyblion o ysgolion eraill, a hefyd wrth i ddisgyblion yr Ysgol Benodedig Ddwyieithog fynd i sefydliadau eraill o bosib llai Cymraeg eu natur
    - sicrhau bod creu a chynnal ethos Cymreig a Chymraeg yn edefyn amlwg a gweithredol sy'n rhedeg drwy bob polisi'r ysgol, ac sydd felly'n rhan o systemau monitro a gwerthuso ar bob lefel
    - defnydd iaith y staff o ran (i) safonau iaith (ii) dealltwriaeth glir mai Cymraeg yw iaith yr ysgol *ymhob agwedd* ond am yr ychydig wersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Saesneg
    - cynnal y Gymraeg fel iaith lywodraethol yn yr ysgolion

    Deallwn y gall rhai o'r pwyntiau uchod ymddangos yng Nghynlluniau Gweithredu'r Gymraeg ar gyfer ysgolion penodol. Serch hynny, gofynnwn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'w cynnwys yn y Cynllun Addysg Gymraeg a fydd yn gosod fframwaith ar gyfer y Cynlluniau Gweithredu maes o law.

- Argymhellwn greu Cydlynydd Polisi Iaith ymhob ysgol i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw digonol a bod y llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb yn glir

Pwyntiau Penodol

Adran 2: Prif Nodau ac Amcanion y Cynllun Addysg Gymraeg

- Pwynt bwled 5: ar ôl 'rhugl', ychwanegu 'ac yn gywir'; mae angen gosod sylfeini cywirdeb iaith yn eu lle yn y Cyfnodau Allweddol cynnar; haws gwneud hynny na cheisio dadwneud arferion ieithyddol gwael yn nes ymlaen

Adran 3: Y Sector Uwchradd

- Pwynt bwled 2: 'O ran yr Ysgolion Penodedig Dwyieithog byddai'n gwbl unol â bwriadau'r Strategaeth i barhau eu cynnal fel y maent'; teimlwn fod y datganiad hwn yn wan, ac yn colli cyfle i sicrhau atgyfnerthiad yn yr ysgolion hyn (fel yn yr ysgolion o gategorïau eraill); gweler y sylwadau uchod am ragor o fanylion ac awgrymiadau penodol

Adran 7: Hanes a Datblygiad Polisi Iaith yr Awdurdod

- Y Polisi Presennol; paragraff 3: mae angen ymhelaethu ar sut i greu 'ethos cwbl Gymraeg a Chymreig', naill ai yn y Cynllun Addysg Gymraeg, neu mewn dogfennaeth atodol

Adran 10: Diffinio Ysgolion a Chategorïau Ieithyddol

- 10.2 Y Sector Uwchradd: 'Dysgir Saesneg fel pwnc a defnyddir hi fel cyfrwng dysgu dewisol gan rai disgyblion wrth ddysgu pynciau dethol'; mae'r datganiad hwn yn beryglus o benagored. Gan fod yr adran hon o'r Cynllun yn nodi mai Ysgolion Uwchradd Dwyieithog 2A yw'r ddwy ysgol dan sylw (yn ôl dogfen Llywodraeth y Cynulliad 'Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg', 2007), onid doeth fyddai defnyddio'r derminoleg a'r safonau a nodir yn y ddogfen honno i nodweddi Ysgolion Uwchradd Dwyieithog 2A:

  > Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

  Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig nodi yn ogystal y 'Canllawiau Statudol ar y Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4' sy'n cyd-fynd â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, sy'n datgan:

  > 1.11 Ni ddylid cymryd unrhyw gamau a fyddai'n effeithio'n anffafriol ar gyfran bresennol y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a gynigir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg[1]. Dylai unrhyw gynnydd mewn cyrsiau o fewn cwricwlwm lleol a gynigir drwy ysgol cyfrwng Cymraeg felly olygu cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn ysgolion a ddiffinnir fel ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 1 neu ysgolion dwyieithog yng nghategori 2A yn Nogfen Wybodaeth Rhif 023/2007: Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ni ddylai cynnydd ymddangos yn nifer y cyrsiau cyfrwng Saesneg.

[1] "At ddibenion y canllawiau hyn defnyddir y diffiniad ar gyfer ysgolion 'cyfrwng Cymraeg' a geir yn adran 106(4) o Ddeddf Addysg 2002 (gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol) sy'n nodi bod:

'[…] ysgol yn un Gymraeg os yw mwy na hanner y pynciau a ganlyn yn cael eu haddysgu (yn llawn neu'n rhannol) drwy gyfrwng y Gymraeg -

(a) addysg grefyddol, a

(b) y pynciau, heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n bynciau sylfaen ar gyfer y disgyblion yn yr ysgol'."

Hynny yw, bob un o ysgolion uwchradd Ceredigion oni bai am Ysgol Uwchradd Penglais.

Mae'n gwbl glir felly mai 'un neu ddau o bynciau' yn unig y gellid eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ac nad oes hawl i gynyddu'r nifer o bynciau yng Nghyfnod Allweddol 4.

Adran 13: Ysgolion Cynradd ac Addysg Gynradd

- 13.3 Asesu: Tabl 'Iaith Asesiadau Statudol Cyfnod Allweddol 2 2003-2005: Mae'r gostyngiad yn y niferoedd cafodd eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mathemateg a Gwyddoniaeth rhwng 2003 a 2005 yn frawychus. Fel y dywedwn uchod, mae dirfawr angen elfen yn y Cynllun hwn sy'n mynd i'r afael â'r diffyg asesu yn y pynciau hyn yn y sector cynradd, a'r patrymau dilyniant canlynol yn yr uwchradd. Nid oes unrhyw reswm i'r ddau bwnc hwn gael eu trin yn wahanol i bynciau eraill o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth. Rhaid gofyn hefyd, oni pharhawyd i fesur cyfrwng iaith yr asesiadau anstatudol ar ôl 2005 ar sail y profion NFER a ddarperir gan yr Awdurdod ac sydd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg?

Adran 14: Ysgolion Uwchradd ac Addysg Uwchradd, gan gynnwys Addysg Gyrfaoedd a Gwasanaethau Ieuenctid

- 14.1: A ddylid nodi yma, yn ogystal â'r pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, y ganran o'r cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg – i gyd-fynd â diffiniadau dogfen Llywodraeth y Cynulliad 'Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg', 2007?

- 14.2 Pontio a 14.3 Asesu: Awgrymwn y dylid ychwanegu cymalau sy'n ymdrin â hybu dilyniant ieithyddol ymhob pwnc, ac yn arbennig pynciau craidd – yn ogystal â'r hyn a nodir ynghylch Cymraeg Iaith Gyntaf/Ail Iaith

Adran 28: Targedau ac Amserlen Gweithredu Fesul Sector

- 5.1 – Cynlluniau Gweithredu'r Gymraeg: A fydd y systemau tracio y cyfeirir atynt yn 5.1.2 yn cynnwys tracio cyfrwng addysgu ac asesu pob pwnc craidd? Argymhellwn y dylent wneud.

- 5.3.1 - Datblygu'r Ddarpariaeth: ai ystyr 'deuol' fan hyn yw 'dwyieithog'? Os felly, gwell newid 'cyfrwng Cymraeg **a** deuol' i 'cyfrwng Cymraeg **neu** ddeuol' - oherwydd nid yw'n briodol i ysgolion penodedig dwyieithog/2A ymestyn eu darpariaeth ddwyieithog.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com